Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen i'w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Ebrill 2023

Ar 25 Ebrill 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a chyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 22 Mai 2023.